

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd:

Amlinella'r poster academaidd hwn modelau damcaniaethol ar sut i ymgorffori llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn yr ysgol gynradd. Anela'r poster hwn at addysgu disgyblion blwyddyn 5.


Model 1 – Addysgu Trwy Thema:

Defnyddir y strategaeth hwn i alluogi archwiliad athrawon a phlant i ystod eang o byniau trwy un thema penodol. Gall thema briodol ychwanegu yn helaeth at gyfoethogiad addysgu mewn ysgol gan fydd sgiliau academaidd plant yn cael ei atgyfnerthu o amryw o gyd-destynau gwahanol. Hefyd bydd thema llwyddiannus, effeithiol yn ddeiniadol i wthio ymdrech plant ac yn eu ysgogi yn y dosbarth (Barnes, 2015).


Mae adolygiad Donaldson (2015) yn cynnig fod llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd i bob athro/awes.

Mae llythrennedd a rhifedd yn cael ei cydnabod fel sylfeini hanfodol i addysg ym mhob man. (Donaldson, 2015).

Model 1 – Dysgu Trwy Thema:



Model 1 – Cyd-Destyn Ysgol:



Allwedd Cyfrifoldebau:

Llythrennedd = **Coch**

Rhifedd = **Gwyrdd**

Cymhwysedd Digidol = **Oren**

Enghreifftiau o'r Briodas Rhwng Gweithgareddau â Sgiliau Cwricwlaidd:

Ymchwilio a siarad i sefydlu gwefan – Bydd rhaid i'r plant cyd-weithio a thrafod gyda busnesau yn llwyddianus i ddeall beth yw'r busnes. Datblygu medrau digidol wrth weithredu sgiliau digidol.

Ymchwilio a chreu map o'r ardal leol – bu'r plant yn archwilio mapiau presenol ac yn eu arsylwi i greu map eu hun. Defnyddio sgiliau rhifedd i greu map a sgiliau digidol i chwilio am y mapiau yn y lle cyntaf.

Ysgrifennu sgrïpt a chreu fideo bydd y plant yn cyd-weithio mewn gwplau i ddylunio a chreu sgrïpt. Hefyd bydd y plant yn dysgu am sgriniau gwyrdd a'r posibilrwyddiadau sydd yn perthyn iddynt.

Codio – Plant yn dysgu am dechnoleg a'i ddefnyddio mewn sefyllfaoedd amrywiol.

Ymchwilio a siarad a busnesau – Plant yn dysgu am wefannau cwmnioedd cyn fynd i'r busnesau. Gwella hyder plant gan ofyn iddynt siarad a phobol diethr.

Model 2 – Addysgu Opirtiwnydd Trawsgwricwlaidd:

Yn syml, mae addysgu yn defnyddio'r model hwn yn gadael i'r plant arwain y trywydd a ddyfnder y dysgu sy'n direiddio o thema neu profiad. Nid yw'r strategaeth hon yn hawdd i'w gynllunio a maent yn cynnwys elfennau o risg. Gan fod y plant yn arwain y dysgu, nid yw hwn yn golygu fod yr athro/awes yn arsylwyr yn unig. Gwella enghreifftiau gorau o addysgu yn y modd hyn yn amlwg pan fu'r athro/awes yn addysgu'n uniongyrchol. (Barnes, 2015).

Cydnabod Arfer Da:

Ysgol Cwmllinfell: Archwilio ac adnabod arbenigaeth staff o fewn yr ysgol. Defnyddia'r ysgol arbenigiaeth eang athraown i gyd-weithio fel tîm i weithredu y ddarpariaeth gorau i blant. Bwysleisia'r ysgol ymgorffori'r gymuned ehangach yn y dysgu tra'n atgyfnerthu perthynas staff, disgyblion a rhieni yn yr ysgol. Argymhella cyd-weithio a ysgolion y clwtwr i annog rhannu arfer dda i'r consortia tra'n cyd-weithio i gynllunio cwricwlwm perthnasol, diddorol i blant yr ardal (Estyn, dim dyddiad).

Cydnabod Arfer Da:

Arweinia Ysgol Ynystawe, Abertawe, y sector am ddefnyddio llais y plentyn yn rhediad ysgol. Defnyddir strategaeth yng nghyd destyn wythnos lle bu'r Pennaeth yn dewis adnodd neu gwrthrych a rôl y plant fydd i archwilio i'r gwrthrych er mwyn darganfod mwy amdanynt. Defnyddir y cysyniad hyn syniadau plant a fu'n gwneud y dysgu y ddiddorol ac yn berthnasol i blant yn y dosbarth. Arsylwa codiad yn greadigrwydd plant yn ogystal a ymdrech plant ar draws yr ysgol, datblyga plant yr awydd i ddysgu yn gydol oes. (Ymweliad Ysgol Ynystawe, 2018).

Estyn yn dweud nid oes rhaid i bob un o'r cyfrifoldebau fod ym mhob sesiwn adysgu.


Asesu'r gwaith:

Mae siart Gwybod, Eisiau gwybod a wedi Dysgu (GED) yn cyfiawnhau ddefnyddio'r strategaeth mewn dosbarthiadau yr ysgol pe bai'r thema wedi'w gwneud yn llwyddiannus. Gwybod = Plant yn nodi beth maent yn gwybod (Nid oes angen addysgu'r pethau hyn). Eisiau gwybod = Dangos beth sy'n ennyn diddordeb plant Dysgu = Amlinelli beth maent nawr wedi dysgu (Asesu).

Cyfrifoldeb yr Athro/awes Dosbarth:

Dibyna lwyddiant y strategaeth yn aml ar allu a weithrediad yr athro/awes dosbarth. Rhaid fod gwybodaeth pynciol dda yn feithrin i'r athro gan ni fydd y dysgu yn dilyn trywydd penodol. Arddangosa'r athro/awes hyder cadarn i allu weithredu'r strategaeth. Gall arsylwi broblemau ar ddechrau'r daith ond drwy gweithio a ddyfalbarhau by'r dysgu yn llawer fwy effeithiol ac yn lleihau baich Gwaith athrawon.

Model 2 - Addysgu Opirtiwnydd Trawsgwricwlaidd:



Yn Y Dosbarth:

Fel cymorth, gall athro/awes defnyddio Tacsonomeg Bloom i ddefnyddio agweddau allweddol ym mhob sesiwn addysgu. E.e plant yn cwestiynu ei gilydd.

Model 2 – Cyd-destun Addysgu:

Gwyddoniaeth a Thechnoleg:

- Cynllunio**, dylunio a chreu un o rhyfeddodau'r byd i **fanyleb megis maint**.
- Creu **ffynhonnell data** o **wybodaeth** y gwledydd.
- Teclyn VR** – **Ysgrifennu ddisgrifiad** o'r rhyfeddodau yn y person cyntaf.


Rhyfeddodau'r Byd:

Celfyddydau mynegianol:

- Ymchwilio**'r rhyfeddodau a'u dylunio ar ffurf amrywiol e.e. paent a siarcol.
- Ysgrifennu sgrïpt** a chreu **fideo sgrîn gwyrdd** yn hysbysebu rhyfeddod o'u dewis.
- Cyfansoddi, perfformio** a **recordio** cerddoriaeth traddodiadol y rhyfeddodau.
- Creu holiadur** a dylunio bathodynau busnes i'r pentref yn dilyn **sgwrs** a'r perchnogwyr.

Dyniaethau:

- Ymchwilio** a **chreu pamfled** i ddenu twristiaid, papur a **ddofgen digidol**.
- Astudio** a **ymchwilio twristiaeth a data** i greu **adroddiad** o ryfeddod.
- Astudio'r gwledydd ar **fapiau** a **chreu ffeili ffeithiau** a ffeithiau rhif megis taldra, **ennyn trafodaeth** gyda'r dosbarth.



Iechyd a Lles:

- Ymchwilio** i chwaraeon traddodiadol lle mae lleoliad y rhyfeddodau, **ceisio esbonio rheolau** a treial i'r gemau.
- Blasu bwydydd gwledydd y ryfeddodau a **mynegi barn** amdanynt – **creu siart** hoffder
- Creu taith rhyfeddodau ar draws yr ysgol, **esbonio** prif bwyntiau'r rhyfeddod penodol.
- Ymchwilio**, ymarfer a **recordio dawnseudd** traddodiadol mewn **grwpiau**.
- Ymchwilio** a **choginio bwydydd** gwahanol – **creu canllawiau**.

Meithrin Sgiliau Gydol Oes:

Ystyrir fod yn hanfodol i blant wybod beth maent yn dysgu i gael y gorau allan o sesiynau. Pe bai athrawon yn rhannu'r cwricwlwm diwigiedig gyda phlant byddant yn teimlo yn rhan o'r daith gyda'u athrawon. Hwylusa'r broses hon bob tro byddwch yn defnyddio'r model hwn gan fydd plant yn ymwybodol o'r hyn maent eisiau dysgu a'r ffordd mae'r ysgu yn plethu gyda'r cwricwlwm.

Cyfyngiadau i'r modelau:

Rhaid i'r athrawon brynnu mewn i'r modelau i'w ddarparu yn llwyddianus yn yr ysgol. Pwysleisia'r cwricwlwm diwigiedig am gyd-weithiad ysgolion felly mae'n anodd weithiau i gael pawb ar yr un tudalen. Argymhellir i'r ysgol ddatblygu hyn ar draws yr ysgol i'w ymgorffori'n llwyddiannus. Os mae gwybodaeth pynciol gwan gan athrawon ni fyddwn yn gallu ei ddarparu'n llwyddiannus.

Y Ffordd Ymlaen:

Gall ysgol ymgorffori'r strategaethau'n syth yn nosbarthiadau i hybi dysgu trawsgwricwlaidd, hefyd:

- Datblygu rhyngweithio dda yn yr ysgol i rannu syniadau gyda staff eraill i gyfoethogi sesiynau.
- Defnyddio llais y plentyn i archwilio i feusydd nad yw'r athro/awes wedi ystyried.
- Adnabod lle mae na gwendidau yn ddarpariaeth cwricwlaidd bresenol yr ysgol a thargeddi elfenau penodol i ddarparu hyfforddiant ar ei cyfer i wella safonau.
- Lleihau baich gwaith athrawon drwy ymgorffori'r plant yn y cynllunio.

Datblygu Model 2:

Yn amlwg ni fydd plant yn ymwybodol o'r cwricwlwm pan fyddant yn defnyddio'r model am y tro cyntaf ond nid oes angen poenu am hyn. Rydym yn ymwybodol o'r allu eiraidd sy'n perthyn i'n plant a rhaid iddym adeiladi ar hyn. Darpara llais y plentyn cyfleon i ddisgyblion dylanwadu ar eu dysgu eu hunan (Estyn, 2014). Adeiladir ar berchnogaeth plant gan fyddwch yn datblygu'r gallu i deilwra argymhellion cwricwlaidd gyda'r hyn mae plant eisiau ei gwneud.

Arweinwyr Sector:

Creuwyd 'Sgwad Dysgu' yn Ysgol Glasllwch i feithrin llais y plentyn yn yr ysgol. Rôl y sgwad yw i fynd o amgylch yr ysgol yn archwilio'r dysgu ac i ddatblygu agweddau i wthio dysgu megis safon yr adnoddau darllen. Byddai'r plant yn adrodd at y Pennaeth i ddatblygu darpariaeth yr ysgol. (Arolygiad Glasllwch gan Estyn, 2014).

Cyfeiriadau Hanfodol:

- Estyn, (dim dyddiad), *Datblygu Medrau Disgyblion ar Draws y Cwricwlwm*, Ar gael: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/datblygu-medrau-disgyblion-ar-draws-y-cwricwlwm> (Darllenwyd 3 o Ragfyr 2018).
- G. Donaldson, (2015), *Dyfodol Llwyddiannus*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth Cymru, (2017), *New School Curriculum: Overview*, Ar gael: <https://beta.gov.wales/new-school-curriculum-overview> (Darllenwyd 5 o Ragfyr 2018).
- Estyn, (2014), *Gwella Dysgu Trwy Gyfranogiad Disgyblion*, Ar gael: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/gwella-dysgu-trwy-gyfranogiad-disgyblion> (Darllenwyd 6 o Ragfyr 2018).